# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 4 Mawrth 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa amcanestyniadau ac asesiadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud ar gyfer twf yn y galw am ofal henoed bregus eu meddwl yng Nghymru dros y 5, 10 ac 20 mlynedd nesaf ac a wnaiff ddatganiad? (WAQ53515)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n datblygu Cynllun Gweithredu Hybu Iechyd Meddwl ar hyn o bryd, sy'n cynnwys adran ar iechyd meddwl pobl hŷn. Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru eisoes yn cynnwys safonau o ran iechyd meddwl ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i hybu iechyd meddwl da; mynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl; a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol pobl â phroblemau iechyd meddwl. Rhoddir hyd yn oed fwy o flaenoriaeth i'r materion hyn yng ngham nesaf y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol.

Fel yng ngweddill y DU, rhagwelir y bydd niferoedd cynyddol o bobl yn dioddef o ddemensia yng Nghymru: dros 11,000 yn fwy o bobl, cynnydd o 30% rhwng 2007 a 2021. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cynnal adolygiad o strategaethau sy'n bodoli eisoes ac unrhyw fylchau mewn polisi ac yn y gwasanaethau a ddarperir mewn perthynas â demensia. Mae hyn yn awgrymu bod y polisi presennol a modelau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer demensia fel y'u nodir mewn canllawiau sy'n bodoli eisoes yn gynhwysfawr. Yr her yw sefydlu a rhannu arfer gorau, gan sicrhau bod y canllawiau yn cael eu gweithredu'n gyson.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi ei hamcanion polisi a'i strategaeth diweddaraf ynghylch gofal yr henoed ac yn enwedig gofal henoed bregus eu meddwl? (WAQ53516)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyhoeddi strategaeth ar gyfer gofal i gleifion dementia yng Nghymru? (WAQ53519)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl cyhoeddi ei chynlluniau ar gyfer gofal henoed yng Nghymru? (WAQ53520)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa gyfarwyddyd fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei gyhoeddi i awdurdodau lleol am ofal henoed yng Nghymru ac yn enwedig henoed bregus eu meddwl? (WAQ53522)

**Edwina Hart:** Rydym wedi sefydlu grŵp, gan ddod â gweithwyr iechyd proffesiynol ac arbenigwyr eraill ynghyd, er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu Demensia Cenedlaethol i Gymru a gadeirir gan Gyfarwyddwr y Gymdeithas Alzheimer yng Nghymru, Ian Thomas, a chaiff y cynllun gweithredu drafft ei gyflwyno i mi i'w ystyried ar ddiwedd mis Ebrill.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (y Fframwaith) ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru yn pennu safonau cenedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol pobl hŷn yng Nghymru. Cyflwynwyd y Fframwaith ar gyfer Pobl Hŷn i Awdurdodau Lleol fel Canllawiau Statudol o dan Gylchlythyr NAFWC 13/2006 ac i'r GIG o dan WHC (2006) 27. Caiff y Fframwaith ei weithredu mewn partneriaeth gan Awdurdodau Lleol a'r GIG gan weithio gyda grwpiau eraill. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wrthi'n cynnal cydadolygiad o'r Fframwaith. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn sail i ddatblygu'r Fframwaith ymhellach yn ystod cam 2, a fydd yn dechrau yn 2010.

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl gwneud penderfyniad am y cynnig i ailadeiladu Canolfan Iechyd Ringland? (WAQ53524)

**Edwina Hart:** Nid yw Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd wedi cyflwyno cynnig mewn perthynas â'r cynllun arfaethedig yng Nghanolfan Iechyd Ringland.

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu copïau o'r holl ohebiaeth rhwng ei hadran a Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd ynghylch datblygiad Canolfan Iechyd Ringland? (WAQ53527)

**Edwina Hart:** Gallaf gadarnhau bod hyn yn cael ei drin fel fersiwn ddyblyg o'ch cais Rhyddid Gwybodaeth, a byddwch yn cael ymateb o fewn amserlenni Rhyddid Gwybodaeth.

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa fesurau interim y bydd eu hangen yng nghyswllt ffurfweddu adeiladau a staffio o ganlyniad i'r oedi wrth fynd â Rhaglen Dyfodol Clinigol Gwent rhagddi? (WAQ53528)

**Edwina Hart:** Rwyf wedi gofyn i Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent ddatblygu cynllun interim i gynnal gwasanaethau tra bod y gwaith pellach y gofynnais amdano ar gyfer y Rhaglen Dyfodol Clinigol yn mynd rhagddo. Mae'r cynllun hwnnw yn cael ei ddatblygu o hyd.

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd y gymuned iechyd yn gallu ymateb i'r cais am ragor o waith sy'n deillio o adroddiad Jones ar Ddyfodol Clinigol Gwent? (WAQ53529)

**Edwina Hart:** Mae angen i'r gwaith pellach hwn i ategu'r model gofal ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol sydd wrth wraidd y Rhaglen Dyfodol Clinigol fod yn gadarn ac mae'n rhaid iddo ategu, gyda thystiolaeth, y tybiaethau sydd eisoes wedi'u gwneud. Bydd y gymuned iechyd yn penderfynu ar yr amser y bydd hynny yn ei gymryd.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa lefel o adnoddau a ddyrennir i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl i garcharorion a sut y mae hyn wedi newid ers datganoli'r cyfrifoldeb hwn? (WAQ53531)

**Edwina Hart:** Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol yng ngharchardai y sector cyhoeddus wedi'i gynnwys mewn dyraniadau dewisol y BILl ar gyfer iechyd mewn carchardai yn gyffredinol.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa Fyrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am iechyd carcharorion, a pha rai o'r Byrddau Iechyd Lleol hynny sydd wedi cynnal asesiad o'r rheini i gyd sydd yn eu gofal ar gyfer pob blwyddyn ers ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y gwasanaeth? (WAQ53532)

**Edwina Hart:** Mae BILlau Caerdydd, Sir Fynwy ac Abertawe yn gyfrifol am ofal iechyd mewn carchardai yn y sector cyhoeddus yn eu hardaloedd, a disgwylir i BILl Pen-y-bont ar Ogwr weithio mewn partneriaeth â Charchar EM/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc. Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Iechyd Carchardai Lleol, ar y cyd â Thimau Lleol Iechyd y Cyhoedd, adolygu a diwygio, fel y bo angen, Asesiadau o Anghenion Iechyd mewn Carchardai bob blwyddyn, a chomisiynu asesiadau llawn newydd fel y bo angen. Mae'r Asesiadau yn llywio Cynlluniau Cyflawni/Gwella Iechyd Carchardai a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd gan y Byrddau Partneriaeth hefyd. Yn hyn o beth, mae Sir Fynwy ac Abertawe newydd gwblhau asesiadau newydd, ac mae gwaith wedi dechrau ar asesiadau newydd yng Nghaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

**Sandy Mewies (Delyn):** Sawl nyrs sydd wedi cael eu cyflogi ym mhob ardal Ymddiriedolaeth / Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru er 1999? (WAQ53534)

**Edwina Hart:** Gellir dod o hyd i nifer a ffigur cyfwerth ag amser cyflawn staff nyrsio a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG fesul sefydliad cyflogi ar wefan StatsCymru http://www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/reportfolders.aspx (o fewn ffolderi Iechyd a Gofal > Staffio'r GIG).

**David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl acíwt ar gyfer plant a'r glasoed yng Nghymru? (WAQ53535)

**Edwina Hart:** Mae iechyd meddwl plant a'r glasoed yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac rydym yn cryfhau ystod y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) ar draws yr haenau gan gynnwys mynediad i wasanaethau arbenigol. Clustnodwyd £6.9m ychwanegol rhwng 2008 a 2011. Hefyd, mae £6.5m wedi'i neilltuo ar gyfer cwnsela mewn ysgolion dros yr un cyfnod.

Pennwyd targedau CAMHS llym ar gyfer y GIG yng Nghymru yn y Fframwaith Gweithredu Blynyddol ar gyfer 2008-09 i sicrhau y darperir ymgynghoriad, cyngor a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n cyflawni swyddogaethau Haen 1. Pennwyd targedau hefyd i leihau'r amser i gael gafael ar wasanaethau gan gynnwys y cleifion hynny a atgyfeirir i CAMHS Arbenigol sy'n teimlo'n isel neu'n meddwl am hunanladdiad yn barhaus. Cadwyd yr un targedau ar gyfer 2009-10.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chynlluniau ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru Gyfan? (WAQ53537)

**Edwina Hart:** Darperir gwasanaethau trallwyso gwaed yng Nghymru gan ddau sefydliad, sef Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yng Ngogledd Cymru a Gwasanaeth Gwaed Cymru yng Nghanolbarth a De Cymru.

Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn awdurdod iechyd arbennig yng Nghymru a Lloegr a chynhelir Gwasanaeth Gwaed Cymru ar hyn o bryd gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Cynigir y bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn trosglwyddo i'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Unedig.

Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i sefydlu gwasanaeth trallwyso gwaed Cymru gyfan.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

**Sandy Mewies (Delyn):** Faint o dwristiaid sydd wedi ymweld â Chymru, o flwyddyn i flwyddyn, er 1999 fesul awdurdod lleol? (WAQ53533)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm nifer y teithiau rhyngwladol a domestig dros nos i Gymru yn ôl Awdurdod Lleol. Cafwyd y ffigurau drwy gyfuno canlyniadau o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) ac Arolwg Twristiaeth y Deyrnas Unedig (UKTS). Diben yr arolygon hyn yn y DU gyfan yw rhoi canlyniadau sy'n gywir o ran y DU a Chymru.

Mae'n rhaid pwysleisio nad bwriad yr un o'r arolygon yw mesur nifer neu amrywiad blynyddol mewn nifer ar lefel Awdurdod Lleol, gan fod maint y samplau ar y lefel ddadgyfuno hon yn rhy fach. Er cyflawnrwydd, mae'r tabl isod yn dangos y ffigurau blynyddol yn ôl Awdurdod Lleol yn eu cyfanrwydd. Fodd bynnag, wrth gyflwyno data ar lefel Awdurdod Lleol, fel arfer mae Croeso Cymru yn defnyddio

cyfartaleddau treigl tair blynedd er mwyn rhoi maint dangosol. Felly, mae'n rhaid trin y canlyniadau isod yn ofalus iawn, ac ni ddylid eu defnyddio allan o'u cyd-destun.

Hefyd, mae'n rhaid ystyried y cafeatau canlynol:

- Yn 2000, newidiwyd y dull a ddefnyddiwyd i fesur twristiaeth gan breswylwyr y Deyrnas Unedig, o ran nifer a gwerth. O ganlyniad i'r newid hwn, nid yw'n bosibl cymharu data o 2000 â data a gasglwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Am y rheswm hwn, ni chynhwysir ffigurau 1999.
- Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio canlyniadau UKTS 2004. Ceir pryderon na roddodd y fethodoleg ffôn a ddefnyddiwyd sampl wirioneddol gynrychioliadol.
- Yn ystod 2005, newidiwyd y dull a ddefnyddiwyd i fesur twristiaeth gan breswylwyr y Deyrnas Unedig, o ran nifer a gwerth. Felly, nid yw'n bosibl cymharu data o 2005 â data a gasglwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol.
- Mae'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol yn arolwg sampl ac felly mae canlyniadau'n destun gwallau samplu arferol.
- Daeth maes awyr Lerpwl a maes awyr Prestwick yn rhan o sampl yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol yn 2005 a gwnaed newidiadau i'r systemau prosesu er mwyn atal traffig rhag cael ei amcangyfrif yn rhy uchel neu'n rhy isel yn rhanbarthol. Dylid bod yn ofalus felly wrth gymharu canlyniadau'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol ar gyfer 2005 a'r blynyddoedd cyn hynny

Nifer y teithiau Rhyngwladol a Domestig Dros Nos i Gymru yn ôl Awdurdod Lleol rhwng 2000 a 2007

*miliwn*

| | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 14.33 | 12.47 | 12.81 | 12.49 | 9.90 | 12.27 | 10.75 | 9.84 |
| Conwy | 1.33 | 1.24 | 1.35 | 1.24 | 1.09 | 1.15 | 0.93 | 1.02 |
| Ynys Môn | 0.62 | 0.38 | 0.51 | 0.32 | 0.49 | 0.59 | 0.67 | 0.40 |
| Blaenau Gwent | 0.06 | 0.13 | 0.06 | 0.04 | 0.01 | 0.04 | 0.07 | 0.02 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0.34 | 0.33 | 0.26 | 0.25 | 0.25 | 0.34 | 0.25 | 0.26 |
| Gwynedd | 2.04 | 1.56 | 1.80 | 2.15 | 1.63 | 1.66 | 1.63 | 1.43 |
| Caerffili | 0.14 | 0.05 | 0.25 | 0.07 | 0.06 | 0.07 | 0.09 | 0.04 |
| Caerdydd | 1.81 | 1.53 | 1.62 | 1.68 | 1.33 | 1.82 | 1.48 | 1.27 |
| Ceredigion | 0.88 | 0.70 | 0.79 | 0.69 | 0.45 | 0.71 | 0.69 | 0.50 |
| Sir Gaerfyrddin | 0.48 | 0.33 | 0.40 | 0.44 | 0.42 | 0.60 | 0.44 | 0.36 |
| Sir Ddinbych | 0.93 | 0.83 | 0.80 | 0.87 | 0.59 | 0.81 | 0.65 | 0.69 |
| Sir y Fflint | 0.31 | 0.33 | 0.28 | 0.23 | 0.26 | 0.18 | 0.13 | 0.20 |
| Merthyr Tudful | 0.02 | 0.11 | 0.04 | 0.09 | 0.02 | 0.06 | 0.05 | 0.09 |
| Sir Fynwy | 0.38 | 0.44 | 0.34 | 0.50 | 0.21 | 0.45 | 0.47 | 0.28 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0.49 | 0.17 | 0.13 | 0.12 | 0.13 | 0.08 | 0.11 | 0.07 |
| Casnewydd | 0.45 | 0.53 | 0.37 | 0.34 | 0.37 | 0.31 | 0.22 | 0.25 |
| Sir Benfro | 1.50 | 1.24 | 1.06 | 1.33 | 1.02 | 1.48 | 1.09 | 1.00 |
| Rhondda Cynon Taf | 0.12 | 0.22 | 0.21 | 0.18 | 0.20 | 0.12 | 0.13 | 0.12 |
| Abertawe | 0.80 | 0.84 | 0.71 | 0.72 | 0.52 | 0.69 | 0.54 | 0.68 |
| Tor-faen | 0.09 | 0.21 | 0.04 | 0.11 | 0.10 | 0.11 | 0.04 | 0.16 |
| Bro Morgannwg | 0.21 | 0.35 | 0.17 | 0.18 | 0.13 | 0.14 | 0.17 | 0.20 |
| Wrecsam | 0.24 | 0.16 | 0.25 | 0.31 | 0.20 | 0.24 | 0.13 | 0.12 |
| Powys | 0.80 | 0.79 | 0.79 | 0.60 | 0.55 | 0.68 | 0.71 | 0.63 |

Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth y Deyrnas Unedig, Arolwg Teithwyr Rhyngwladol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau nifer y gwartheg a gafodd eu difa oherwydd TB mewn Gwartheg yn y 5 mlynedd diwethaf? (WAQ53536)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Lladdwyd 42,168 o wartheg yng Nghymru o ganlyniad i TB mewn gwartheg rhwng mis Ionawr 2003 a mis Tachwedd 2008 (yn gynhwysol). Ceir crynodeb o hyn yn y tabl isod:

| **Blwyddyn** | **Fel Gwartheg Adweithiol** | **Fel Gwartheg ag Adwaith Amhendant** | **Fel Cysylltiadau Uniongyrchol** | **Cyfanswm a Laddwyd** |
|---|---|---|---|---|
| 2003 | 4,780 | 129 | 751 | 5,660 |
| 2004 | 4,658 | 124 | 688 | 5,470 |
| 2005 | 5,440 | 126 | 1,073 | 6,639 |
| 2006 | 5,126 | 102 | 696 | 5,924 |
| 2007 | 7,166 | 109 | 630 | 7,905 |
| 2008 (Ion – Tach) | 9,396 | 192 | 982 | 10,570 |
| **Cyfanswm a Laddwyd** | 36,566 | 782 | 4,820 | **42,168** |

Noder y cymer tri mis cyn bod adroddiadau TB Iechyd Anifeiliaid ar gael. Ar adeg ysgrifennu, adroddiad mis Tachwedd 2008 oedd yr adroddiad diweddaraf a oedd ar gael. Gweler y ddolen isod am fwy o wybodaeth am ddehongli'r data:

http://www.defra.gov.uk/animalh/tb/stats/usingstats.htm